**CYNGOR SIR PENFRO**

**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 – GORCHYMYN (AMRYWIAD RHIF 28) 2024**

---

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn bod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gwneud gorchymyn wrth arfer ei bwerau dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 49, 53, 101, 102 a 124 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd, darpariaethau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 2004"), a'r holl bwerau galluogi eraill.

Bydd y gorchymyn yn diwygio ymhellach Orchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 ac amserlenni a geir o'i fewn ac amrywiadau dilynol.

Effaith y cynigion fydd cyflwyno cyfyngiadau aros newydd a/neud diwygio a/neu ddirymu rhai cyfredol ar y rhannau o'r ffyrdd a bennir yn yr atodlen i'r hysbysiad hwn.

Gallwch weld copi o'r gorchymyn drafft ynghyd â chynlluniau sy'n dangos lleoliadau'r cyfyngiadau a datganiad o'r rhesymau dros gynnig cyflwyno'r gorchymyn ar-lein yn www.sir-benfro.gov.uk.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad yn ysgrifenedig at y llofnodwr isod erbyn 27 Mawrth 2024.

Dyddiedig y 6fed diwrnod hwn o Fawrth 2024.

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith a'r Amgylchedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd

**ATODLEN**

## 1 Hwlffordd

### 1.1 Dim aros ar unrhyw adeg

**Furzy Park**

Yr ochr ogleddol – o bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganol Snowdrop Lane, i'r gorllewin am 20 metr

**Ffordd Fynediad Ysgol Uwchradd Hwlffordd**

Yr ochr ogleddol – o bwynt 20 metr i'r gorllewin o gyffordd Cylchfan Scotchwell yr A40 i gylchfan Ffordd Aberteifi, i'r gorllewin am 233 metr.
Yr ochr ddeheuol – o bwynt 20 metr i'r gorllewin o gyffordd Cylchfan Scotchwell yr A40 i gylchfan Ffordd Aberteifi, i'r gorllewin am 216 metr.

## 2. Johnston

### 2.1 Dim aros ar unrhyw adeg

**Hall Court**
Yr ochr ddeheuol – o'i chyffordd â Church Road i'r dwyrain am 20 metr.

## 3. Milton

### 3.1 Dim aros ar unrhyw adeg

**Ffordd yr C3030 Milton i Cosheston**
Yr ochr ddwyreiniol – o'i chyffordd â'r A477(T) tua'r gogledd am 46 metr.
Yr ochr orllewinol – o'i chyffordd â'r A477(T) tua'r gogledd am 35 metr.

**Ffordd ddolen yr C3030**
Yr ochr ddeheuol – o'i chyffordd â ffordd yr C3030 Milton i Cosheston, tua'r gorllewin am 15 metr.

## 4. Tyddewi

### 4.1 Dileu dim Aros ar unrhyw adeg 8am – 6pm, 1 Ebrill – 30 Medi

**Heol Non**
Yr ochr orllewinol – o ffin rhif 77 Heol Non i'r gogledd i ffin rhif 85 Heol Non, sef pellter o 15 metr.

### 4.2 Dim aros 8am – 6pm

**Y Popls**
Yr ochr ddeheuol – o bwynt 48 metr i'r gorllewin o Sgwâr y Groes tua'r gorllewin am 60 metr.

## 5. Dinbych-y-pysgod

### 5.1 Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

**The Croft, Dinbych-y-pysgod**

Yr ochr orllewinol – o'r gyffordd â The Norton, tua'r gogledd am bellter o 30 metr.

**South Parade, Five Arches, Dinbych-y-pysgod**

Yr ochr ddwyreiniol – o'r man parcio ar ochr ogleddol Five Arches o amgylch y radiws i ddechrau'r bae ar ochr ddeheuol Five Arches.

**CYNGOR SIR PENFRO**

**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 – GORCHYMYN (AMRYWIAD RHIF 28) 2024**

---

Mae Cyngor Sir Penfro ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 49, 53, 101, 102 a 124 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd, darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a holl bwerau galluogi eraill y Ddeddf, ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu yn unol â Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar y … diwrnod o … 2024 a gall gael ei nodi fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 – Gorchymyn (Amrywiad Rhif 28) 2024.

2. Mae Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros, Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 ("y Gorchymyn Cydgrynhoi"), gan gynnwys yr atodlenni ynddo a'r amrywiadau dilynol, trwy hyn wedi'i amrywio neu ei ddiwygio fel a ganlyn:-

**<u>1) Diwygio Atodlen 1</u>**

**Yn Atodlen 1.1, rhodder:-**

**South Parade, Five Arches, Dinbych-y-pysgod**
Yr ochr ddwyreiniol – o'r man parcio ar ochr ogleddol Five Arches o amgylch y radiws i ddechrau'r bae ar ochr ddeheuol Five Arches.

**The Croft, Dinbych-y-pysgod**
Yr ochr orllewinol – o'r gyffordd â The Norton, tua'r gogledd am 30 metr.

**<u>2) Diwygio Atodlen 2</u>**

**(a) Yn Atodlen 2.1, rhodder:-**

**Hwlffordd**

**Furzy Park**

Yr ochr ogleddol – o bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganol Snowdrop Lane, i'r gorllewin am 20 metr.

**Ffordd Fynediad Ysgol Uwchradd Hwlffordd**

Yr ochr ogleddol – o bwynt 20 metr i'r gorllewin o gyffordd Cylchfan Scotchwell yr A40(T) i gylchfan Ffordd Aberteifi, i'r gorllewin am 233 metr.

Yr ochr ddeheuol – o bwynt 20 metr i'r gorllewin o gyffordd Cylchfan Scotchwell yr A40(T) i gylchfan Ffordd Aberteifi, i'r gorllewin am 216 metr.

**Johnston**

**Hall Court**

Yr ochr ddeheuol – o'i chyffordd â Church Road i'r dwyrain am 20 metr.

**Milton**

**Ffordd yr C3030 Milton i Cosheston**

Yr ochr ddwyreiniol – o'i chyffordd â'r A477(T) tua'r gogledd am 46 metr.

Yr ochr orllewinol – o'i chyffordd â'r A477(T) tua'r gogledd am 35 metr.

**Ffordd ddolen yr C3030**

Yr ochr ddeheuol – o'i chyffordd â ffordd yr C3030 Milton i Cosheston, tua'r gorllewin am 15 metr.

**(b) Diwygir Atodlen 2.1 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Dinbych-y-pysgod**

**The Croft** – dilëir y paragraff sy'n ymwneud â'r ochr orllewinol (a).

Yn lle paragraff (b), rhodder:

Yr ochr orllewinol – o bwynt 30 metr i'r gogledd o'r gyffordd â The Norton i'r gogledd a'r dwyrain i ffin yr eiddo Seafield/Carmen.

**(c) Yn Atodlen 2.2, rhodder:-**

**Tyddewi**

**Y Popls**

Yr ochr ddeheuol – o bwynt 48 metr i'r gorllewin o Sgwâr y Groes tua'r gorllewin am 60 metr.

**(b) Diwygir Atodlen 2.11 i'r gorchymyn fel a ganlyn:**

**Tyddewi** – yn lle'r paragraff sy'n ymwneud ag ochr orllewinol c), rhodder:

**Heol Non**

Yr ochr orllewinol – c) o bwynt 7 metr i'r gogledd o ffin ddeheuol rhif 77 tua'r gogledd am 14 metr.

**(e) Yn Atodlen 2.11, rhodder:-**

**Tyddewi**

**Heol Non**

Yr ochr orllewinol – d) o ffin ddeheuol rhif 85 Heol Non tua'r gogledd am 146 metr.

## 6) Dirymiadau

Mae'r hydoedd ffyrdd hynny yn "y Gorchymyn Cydgrynhoi", gan gynnwys yr atodlenni ynddo ac amrywiadau dilynol, trwy hyn yn cael eu dirymu lle y soniwyd amdanynt yn benodol neu lle mae'r diwygiad yn y gorchymyn hwn yn darparu diffiniad newydd o ran y cyfyngiad i'w gymhwyso i'r rhan honno o'r briffordd.

**RHODDIR** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y … diwrnod hwn o ….., Dwy Fil a Phedair ar Hugain.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
**SIR PENFRO**
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

**GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO (CYDGRYNHOI) 2011 GORCHYMYN (AMRYWIAD RHIF28) 2024**

**Datganiad o'r Rhesymau**

Mae'r cynigion i gyflwyno neu i ddiwygio cyfyngiadau parcio ar y stryd fel y nodwyd yn y gorchymyn drafft a atodwyd yn cael eu hyrwyddo fel rhan o adolygiad parhaus y cyngor o ddarpariaeth parcio ar y stryd ar rwydwaith ffyrdd y sir.

Nod y cynigion yw sicrhau bod cyfyngiadau cyfredol yn briodol ar gyfer lleoliad, a bod materion a nodir drwy sylwadau cyhoeddus a chymunedol yn cael eu hystyried a'u gweithredu lle y bo'n gyfiawn. Mae'r cyfyngiadau diwygiedig hefyd yn adlewyrchu newidiadau i'r briffordd ac yn sicrhau y gall cerddwyr a thraffig cerbydol symud yn ddiogel.

Crynodeb o'r rhesymau dros y cynigion fel y'u nodwyd yn y gorchymyn drafft:

| Cyf Dogfen | Lleoliad | Cynnig | Rheswm dros y cais |
|---|---|---|---|
| **Var 28.1** | **Furzy Park, Hwlffordd** | **Gwahardd aros** | **Cael gwared ar barcio anystyriol gyferbyn â chyffordd** |
| **Var 28.2** | **Ffordd Fynediad Ysgol Uwchradd Hwlffordd** | **Gwahardd aros** | **Cael gwared ar barcio ar y ffordd fynediad** |
| **Var 28.3** | **Hall Court, Johnston** | **Gwahardd aros** | **Cael gwared ar barcio gyferbyn â llwybr troed newydd sy'n cyfyngu mynediad i'r ystad** |
| **Var 28.4** | **Ffordd yr C3030, Milton** | **Gwahardd aros** | **Cael gwared ar barcio ger y gyffordd â'r A477(T)/ynys draffig ac ar y gyffordd sy'n arwain tuag at y siop sglodion** |
| **Var 28.5** | **Heol Non, Tyddewi** | **Cael gwared ar ran fechan o linell felen sengl ar draws safle datblygu tai newydd** | **Dileu'r cyfyngiad presennol sy'n croesi'r fynedfa newydd i'r safle tai** |
| **Var 28.6** | **Y Popls, Tyddewi** | **Dim aros 8am – 6pm** | **I wahardd parcio yn ystod y dydd sy'n cyfyngu mynediad i eiddo** |
| **Var 28.7** | **The Croft, Dinbych-y-pysgod** | **Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg** | **Cael gwared ar barcio ar y gyffordd** |
| **Var 28.8** | **Porth y Pum Bwa,** | **Gwahardd aros,** | **Cael gwared ar barcio** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **South Parade, Dinbych-y-pysgod** | **llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg** | **diwahaniaeth o amgylch Porth y Pum Bwa** |